Adroddiad ar

Gylch Meithrin Machynlleth

Yr Asgell
Campws Uwchradd
Ysgol Bro Hyddgen
Ffordd Aberystwyth
SY20 8DR

Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Machynlleth

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Machynlleth |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Tomi Rowlands |
| Person â gofal | Caryl Edwards |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Ystod oedran y plant | 2 i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 8.45 – 15.45 Dydd Llun i Ddydd Iau<br>9.00 – 15.00 Dydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18/10/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 18/10/2022 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 16/09/2025 |

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth ychwanegol | Ychydig iawn o blant sydd yn dod o gartrefi lle mae Cymraeg yn cael ei siarad ar yr aelwyd. |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1. Sicrhau cyfleoedd cyson i blant ddatblygu eu medrau digidol yn adeiladol dros amser

A2. Miniogi dulliau pwrpasol o gofnodi arsylwadau, a'u defnyddio yn fwy effeithiol i gynllunio camau nesaf plant unigol

A3. Cryfhau dulliau rhannu gwybodaeth am brofiadau a chynnydd plant gyda rhieni a gofalwyr

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas â chysylltiadau cymunedol cadarn sy'n cefnogi medrau cymdeithasol, emosiynol a phrofiadau ehangach plant yn hynod effeithiol, i'w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan bron bob un o’r plant ymdeimlad arbennig o berthyn i’r lleoliad ac maent yn gyfarwydd â threfniadau ac arferion dyddiol cytûn. Maent yn hapus, yn teimlo’n ddiogel ac yn gwybod eu bod yn cael eu parchu gan bob ymarferydd. Mae’r rhan fwyaf o blant yn setlo'n arbennig o gyflym ar ddechrau pob sesiwn. Maent yn ymdopi’n dda wrth adael eu rhieni a’u gofalwyr ac yn mynd ati’n ddiymdroi i chwarae'n frwdfrydig a llawn cyffro gyda’u ffrindiau. Pan fo angen, maent yn derbyn cefnogaeth garedig gan ymarferwyr, gan symud yn gyflym i chwarae'n hapus.

Bron yn ddieithriad, mae plant yn ymddwyn yn dda iawn ac yn gyfforddus yn eu hamgylchedd ac mae bron bob un yn cyfleu eu teimladau a’u hanghenion personol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn mwynhau rhyddid i symud yn hyderus a digymell o amgylch yr ardaloedd dysgu di-dor ac yn golchi eu dwylo’n annibynnol ar ôl cyrraedd y lleoliad.

Mae gan blant lais amlwg yn y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf yn cyfathrebu’n bwrpasol am sut yr hoffent ddefnyddio’r amgylchedd ddysgu i fwynhau eu dysgu a’u chwarae. Maent yn dewis eu hadnoddau yn gynyddol annibynnol, er enghraifft wrth gasglu offer adeiladu pwrpasol i greu lloches i froga.

Mae bron bob plentyn yn manteisio ar gyfleoedd bwriadus a’r adnoddau pwrpasol wrth benderfynu ble a phryd y maent am chwarae. Er enghraifft, mae plant yn achub ar gyfleoedd bwriadus i eistedd yn yr ardal allanol am gyfnod estynedig i fwynhau arbrofi gyda’r adnoddau a’r gweithgareddau sydd ar gael iddynt. Mae hyn yn cyfrannu’n gadarn at feithrin medrau annibynnol a lles plant.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n effeithiol â’i gilydd, gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn datblygu perthynas glòs a chynnes ag oedolion, ac yn hyderus i ofyn am gymorth, pan fo angen. Mae’r rhan fwyaf yn parchu teimladau a diddordebau plant eraill ac yn dysgu cymryd eu tro yn dda. Er enghraifft, maent yn rhannu adnoddau yn synhwyrol yn yr ardal ‘Byd Bach’ ac yn cefnogi ei gilydd yn ddiwyd wrth gwblhau her jig-so.

Mae bron bob un o’r plant yn meithrin eu lles emosiynol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent wrth eu bodd yn dangos gofal a thynerwch wrth ofalu am fulod sy’n ymweld â’r lleoliad. Mae hyn yn cyfrannu’n arbennig at gefnogi lles emosiynol y plant ac yn datblygu eu gwerthfawrogiad o anifeiliaid a’r byd naturiol yn llwyddiannus.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau dysgu annibynnol cadarn. Maent yn cadw eu cotiau, yn hunangofrestru yn lled annibynnol wrth gyrraedd ac yn rhoi gwastraff bwyd mewn biniau priodol ar ôl gorffen. Yn ogystal, maent yn gosod cadeiriau ac yn casglu gwydrau a phlatiau go iawn yn ystod byrbryd yn ddigymell.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae bron bob un o'r plant, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Maent yn datblygu ystod bwrpasol o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu, yn enwedig eu medrau annibynnol, sy'n datblygu'n gadarn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac yn dilyn cyfarwyddiadau'r ymarferwyr yn effeithiol. Gyda chyfarwyddyd bwriadus yr ymarferwyr, maent yn estyn cyfarpar coginio priodol o'r gegin yn ddiffwdan, er enghraifft. Mae medrau cyfathrebu y rhan fwyaf o'r plant yn datblygu'n dda, ac maent yn meithrin eu medrau Cymraeg yn bwrpasol mewn cyd-destunau bywyd go iawn. Er enghraifft, maent yn ymateb yn briodol i gwestiynau'r ymarferwyr wrth chwarae rôl yn archebu lluniaeth yn y caffi. Mae hyn yn cyfrannu'n fwriadus at gynnydd cyson y plant yn eu medrau llafar Cymraeg dros amser.

Mae llawer o blant yn meithrin eu medrau darllen cynnar yn briodol wrth ymgolli mewn ystod dda o lyfrau yn yr ardaloedd. Maent yn mwynhau eu cynnwys, yn dilyn print â bys yn ofalus wrth ddarllen y stori ac yn troi tudalennau'n barchus. Mae'r rhan fwyaf yn arbrofi â phrofiadau ysgrifennu cynnar yn bwrpasol ac yn eu mwynhau. Er enghraifft, maent yn creu marciau o'u henwau ar bapur ac yn defnyddio sialc i greu amlinelliad gofalus o'u cyrff yn yr ardal awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn meithrin eu medrau mathemategol yn briodol ac yn datblygu iaith fathemategol addas mewn cyd-destunau perthnasol. Er enghraifft, maent yn mwynhau canu ac ailadrodd rhigymau rhif bachog fel 'Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio' a 'Pum Crocodeil' mewn sesiynau torfol. Mae llawer o blant yn ystyried yn ofalus sut i ddatrys problemau ac yn dyfalbarhau'n bwrpasol i orffen gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n ddiwyd ac yn arddangos dycnwch wrth gyfosod a chydbwyso blociau'n greadigol i adeiladu tŷ ar gyfer cymeriad.

Ar y cyfan, mae medrau digidol y plant yn datblygu'n addas. Pan gânt y cyfle, maent yn defnyddio ystod briodol o offer digidol yn bwrpasol, er enghraifft wrth ddefnyddio amserydd yn fedrus i amseru faint mae'n ei gymryd i ffrind gydbwyso a cherdded ar hyd llwybr. Er hyn, nid yw'r rhan fwyaf o blant yn meithrin eu medrau digidol yn ddigon cadarn dros amser.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o blant yn datblygu’n dda. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu hunain yn gyson trwy grefft, cerdd a symud. Maent yn mwynhau dawnsio i gerddoriaeth yn egnïol wrth ddynwared symudiadau trên a defnyddio offerynnau cerdd yn rheolaidd i gadw rhythm. Mae’r rhan fwyaf o blant yn meithrin eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth ddringo a chydbwyso ar yr offer antur yn hyderus yn yr ardal awyr agored, gan ddangos ystwythder a chryfder da.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth effeithiol ar gyfer plant. Mae eu holl bolisïau’n gyfredol ac maent yn eu gweithredu’n bwrpasol. Maent yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o drefniadau diogelu’r lleoliad, ac wedi mynychu hyfforddiant amddiffyn plant pwrpasol sy’n eu galluogi i ddelio’n amserol ag unrhyw broblemau neu bryderon sy’n codi. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan bob un o’r ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf gyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn hyderus i ddelio ag unrhyw ddamweiniau. Cedwir cofnodion priodol o unrhyw ddamwain, gan gynnwys unrhyw gymorth cyntaf a roddwyd, i sicrhau diogelwch a lles y plant. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn cadw cofnodion buddiol o alergeddau ac anghenion dietegol y plant a chaiff yr wybodaeth ei harddangos yn bwrpasol a chlir yng nghegin y lleoliad.

Mae ymarferwyr yn rhoi sylw cyson i hylendid y plant gan eu hatgoffa’n rheolaidd i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iachus a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol. Er enghraifft, maent yn cymell plant i wneud siapiau corff addas i gyd-fynd â stori ‘Hela Arth’ ac yn caniatáu iddynt ddewis os ydynt am yfed dŵr neu laeth yn ystod amser byrbryd.

Gwneir defnydd effeithiol o ymarferwyr yn y lleoliad. Maent yn goruchwylio plant yn dda ac mae’r lleoliad yn aml yn rhagori ar gymhareb ofynnol yr oedolion i blant. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu â'r plant mewn ffordd gyfeillgar, gadarnhaol a chynnes gan greu awyrgylch digyffro a braf. Cryfder amlwg yw’r modd mae ymarferwyr yn gweithredu’r polisi ymddygiad cadarnhaol yn fedrus i sicrhau bod plant yn cadw o fewn ffiniau a disgwyliadau yn synhwyrol. Maent yn cefnogi’r plant yn dda iawn ac yn siarad â nhw yn sensitif, gan eu canmol yn helaeth ym mhob gweithgaredd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar feithrin fedrau a hunanhyder y plant.

Mae ymarferwyr yn gydwybodol ac effeithiol wrth gynllunio amrywiaeth o weithgareddau ystyrlon sy’n cael effaith fuddiol ar ddatblygiad plant. Maent yn sicrhau profiadau amrywiol sy’n cymell y plant i ddysgu trwy wneud. Er enghraifft, maent yn cynnig cyfleoedd bwriadus i blant rholio clai i siapio rhifau sy’n atgyfnerthu eu dealltwriaeth fathemategol yn bwrpasol.

Mae ymarferwyr yn adnabod bob plentyn yn dda iawn ac yn dangos balchder cynhenid yn eu llwyddiannau. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenion a diddordebau unigol pob plentyn. Maent yn arsylwi ar y plant mewn modd sensitif ac maent yn gwybod pryd i holi, cynnig esboniadau a syniadau er mwyn annog plant i feddwl a datrys problemau. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cadw cofnodion addas am yr hyn mae’r plant yn ei wneud yn ddyddiol. Maent yn cynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol trwy gysylltiadau cryf ag asiantaethau allanol ac maent yn gweithredu’n ddiymdroi ar arweiniad sy’n cael ei gynnig.

### Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Un o rinweddau cryfaf y lleoliad yw'r berthynas hyfryd a chynhaliol rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o’r ffyrdd y mae plant yn dysgu drwy chwarae ac archwilio. Defnyddiant y wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio profiadau dysgu ysgogol ac ystyrlon sy’n galluogi plant i feithrin eu medrau yn naturiol ac yn eu ffordd eu hunain. Er enghraifft, yn dilyn hyfforddiant diweddar ar ddysgu sgematig, mae ymarferwyr yn defnyddio’r dulliau hyn yn fedrus i sicrhau bod y profiadau’n addas ac yn berthnasol i anghenion unigol y plant.

Mae llais y plentyn yn elfen amlwg sy’n llywio’r cynllunio ac yn rhoi cyfeiriad clir i’r dysgu. Er enghraifft, ar ôl i blentyn sylwi ar gonceri a dail yn disgyn o’r coed wrth ddringo’r offer antur, defnyddiodd yr ymarferwyr y syniad hwn yn fan cychwyn ar gyfer dysgu. O ganlyniad, datblygwyd cyfres o weithgareddau ymarferol ac ystyrlon, fel creu barcutiaid a melinau gwynt. Mae hyn yn ymestyn chwilfrydedd a dychymyg y plant yn eu chwarae a’u dysgu yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r Gymraeg yn ystod sesiynau. Trwy ddulliau trochi pwrpasol, maent yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi geirfa plant yn gyson wrth chwarae ochr yn ochr. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddefnyddio'r iaith yn fwriadus wrth iddynt chwarae, adrodd rhifau a defnyddio cyfarchion syml.

Darperir ystod dda o lyfrau deniadol a lliwgar ym mhob ardal, ac mae ymarferwyr yn darllen straeon â chynhesrwydd i blant yn ‘Y Cwtsh.’ Mae hyn yn annog plant i ymgysylltu’n llawn ac i feithrin cariad tuag at lyfrau a straeon. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn darparu adnoddau helaeth i blant greu marciau yn yr ardaloedd dysgu tu fewn a thu allan, ac yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd pwrpasol i’w defnyddio.

Mae ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd priodol i ddatblygu medrau mathemategol cynnar plant yn ardaloedd y ddarpariaeth. Er enghraifft, maent yn annog plant i arbrofi â chlorian wrth bwyso cynhwysion yn ofalus ar gyfer pobi cacennau bach. Mae'r ardaloedd dysgu yn rhoi mynediad hwylus i'r plant at ystod briodol o adnoddau digidol gwahanol fel ffonau symudol, cyfrifiannell a thiliau. Er hyn, at ei gilydd, nid yw ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd bwriadus a chyson i blant ddatblygu eu medrau digidol yn adeiladol dros amser.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant ddatrys problemau a chymryd risgiau priodol. Er enghraifft, maent yn ychwanegu adnoddau fel cyllyll i dorri llysiau, morthwylion a llif wrth arbrofi a chreu yn yr 'Ardal Adeiladu.' Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau diddorol i'r plant ymgysylltu â byd natur a datblygu eu chwilfrydedd a'u hymdeimlad o ryfeddod am y byd naturiol. Er enghraifft, mae plant yn mwynhau casglu trychfilod yn yr ardal goedwig gan ddefnyddio sbienddrych yn gynyddol annibynnol i edrych ar eu nodweddion.

Mae ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth plant o'u Cymreictod a'u cynefin yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn trefnu i ddathlu diwrnodau arwyddocaol fel Diwrnod Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi gan wisgo gwisg Gymreig draddodiadol. Maent yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn dda. Mae'r plant yn ymweld â'r eglwys leol yn rheolaidd i ddysgu am stori'r geni ble cânt wisgo fel cymeriadau o'r Beibl.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gynyddol o ddatblygiad plant. Yn gyffredinol, maent yn cadw nodiadau priodol am gynnydd pob plentyn. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn cofnodi'r dysgu yn ddigon miniog i fwydo'r cynllunio a llywio'r camau nesaf yn y dysgu a sicrhau cynnydd ym medrau'r plant dros amser.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn sicrhau amgylchedd glân a diogel ar gyfer y plant. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn sicrhau y caiff y gatiau allanol eu cau â chlo yn brydlon ar ôl i'r plant gyrraedd, a bod ymwelwyr yn dangos dull adnabod ac yn llofnodi i mewn. Maent yn sicrhau bod ystod briodol o hysbysebion a phosteri pwrpasol o gwmpas y lleoliad, sy'n cefnogi eu trefniadau clir o ran diogelu plant. Mae ymarferwyr yn dilyn trefniadau cyson ynglŷn â diogelwch yr amgylchedd a threfniadau glanhau rheolaidd i reoli heintiau sy'n adlewyrchu arferion hylendid da. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn cynnal driliau tân rheolaidd er mwyn i'r plant ymgyfarwyddo â'r drefn yn briodol.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ystafell i ddarparu ardaloedd dysgu trefnus sy'n annog plant i'w defnyddio'n annibynnol i ymchwilio ac arbrofi. Er enghraifft, mae'r ardaloedd dysgu y tu mewn a thu allan yn cydgysylltu'n ddi-dor, gan roi rhyddid i blant archwilio'r amgylchedd dysgu o'u dewis trwy gydol y sesiwn.

Mae arweinwyr yn darparu dodrefn, cyfarpar ac adnoddau o ansawdd cyson dda i'r plant, sy'n diwallu eu hanghenion yn bwrpasol. Er enghraifft, mae'r 'Ardal Cartref' yn hyrwyddo profiadau dysgu'n dda trwy gynnig offer coginio go iawn a desg harddwch gydag offer perthnasol, sydd ar lefel isel. Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar yn lân, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda a'u bod yn briodol ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn annog y plant i ofalu am yr adnoddau ac i helpu i dacluso pan fyddant wedi gorffen chwarae.

Mae'r defnydd datblygol o adnoddau naturiol a phenagored yn ysgogi diddordeb y plant ac mae amrywiaeth addas o adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol yn dda. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd tu mewn yn lân, ac yn eu haddurno gan luniau o deuluoedd y plant ynghyd ag arddangosfeydd addas o waith y plant. Yn ogystal, mae amrywiaeth o ddeunyddiau ac adnoddau wedi'u hailgylchu ar gael sy'n hybu dealltwriaeth y plant o fywyd go iawn yn fwriadus.

Mae gan y lleoliad ardal allanol effeithiol sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i blant gymryd risgiau dan oruchwyliaeth ymarferwyr. Ceir cydbwysedd priodol rhwng sicrhau diogelwch y plant a chynnig cyfleoedd bwriadus iddynt herio eu hunain a mentro. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i blant ddatblygu medrau newydd wrth arbrofi gydag offer 'go iawn' fel morthwyl a hoelion i greu cerbydau yn greadigol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn annog y plant i ddangos ymwybyddiaeth aeddfed o bwysigrwydd hunanofal wrth wisgo sbectol diogelwch cyn cychwyn arbrofi gyda'r offer. Maent yn ymestyn gwybodaeth a datblygiad plant yn yr awyr agored yn effeithiol drwy gynnig ystod dda o adnoddau sy'n ysgogi eu chwilfrydedd a'u diddordeb. Er enghraifft, mae'r plant yn plannu ac yn bwyta llysiau a ffrwythau o ardd y cylch sy'n dwysáu eu gwerthfawrogiad o bwysigrwydd cynaliadwyedd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac maent yn cydweithio'n llwyddiannus wrth hyrwyddo lles, gofal a chefnogi'r dysgu i feithrin *'Plant llawen, hyderus ac annibynnol.'* Mae eu harferion trylwyr a'u hagweddau cadarnhaol yn creu amgylchedd gynhaliol sy'n darparu profiadau ysgogol ac ystyrlon i'r plant.

Mae arweinwyr yn frwdfrydig ac yn angerddol am waith y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'r ymarferwyr ac maent yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae gan yr arweinydd berthynas waith arbennig ag aelodau'r pwyllgor rheoli, ac mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhyngddynt yn cyfrannu'n werthfawr at gynnig darpariaeth a gofal o ansawdd. Ceir datganiad o ddiben cynhwysfawr sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, gan alluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae gweithdrefnau trylwyr ar waith ar gyfer recriwtio staff, gan sicrhau eu bod yn brofiadol ac yn gymwys. Mae arweinwyr yn gwerthuso perfformiad ymarferwyr yn rheolaidd, sy’n cynnwys sgyrsiau proffesiynol buddiol ac sy’n arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol amserol ac ystyrlon i wella eu harferion addysgu a gofal. Er enghraifft, mae mynychu hyfforddiant ar wreiddio profiadau lle mae plant yn ymgymryd â gwaith gyda phren wedi cynorthwyo plant i feithrin amryfal fedrau gwerthfawr yn llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar gyfer gwerthuso gwaith y cylch ac adnabod cryfderau a’r agweddau sydd angen sylw. Maent yn gweithio'n effeithlon gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill wrth osod blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn addasu a gwella’r ddarpariaeth yn gyson er mwyn cynnig profiadau ystyrlon a chyffrous i ddiwallu anghenion y plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd doeth o’r gyllideb a’r grant datblygu’r blynyddoedd cynnar, ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau’r lleoliad yn ddarbodus. Trwy gyfrwng y grantiau hyn, maent wedi ehangu’r ddarpariaeth cynnig gofal plant ar gyfer rhai o’r teuluoedd sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau cyfathrebu ac ymgysylltiad y plant yn eu dysgu a’u chwarae.

Ar y cyfan, rhennir gwybodaeth ddefnyddiol â'r rhieni a'r gofalwyr ar y cyfryngau cymdeithasol, drwy gylchlythyr achlysurol ac ar lwyfannau digidol pwrpasol. Er hyn, yn gyffredinol, nid yw rhieni a gofalwyr yn teimlo eu bod yn derbyn gwybodaeth am ddatblygiad a chynnydd eu plant yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn hyderus ynghylch sut i gefnogi medrau eu plant gartref.

Un o rinweddau pennaf y lleoliad yw’r modd y mae arweinwyr wedi sefydlu ystod o bartneriaethau gwerthfawr ac ystyrlon i gefnogi plant i ddatblygu ymdeimlad o berthyn i’w ‘cynefin’. Er enghraifft, maent yn cynnal digwyddiadau cymunedol cyson megis taith lusernau gyda rhieni ac yn dangos caredigrwydd trwy roi rhoddion i wasanaethau a siopau lleol yn ystod cyfnod y Nadolig. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu ystod dda o fedrau wrth ymweld ag archfarchnad leol i brynu cynhwysion ar gyfer sesiynau coginio yn y cylch. Yn ogystal, maent yn elwa ar ymweliadau rheolaidd â chartref preswylwyr hŷn yn y gymuned, lle maent yn diddanu’r trigolion ac yn chwarae gemau bwrdd gyda nhw. Mae’r profiadau hyn yn cefnogi datblygiad medrau llafar a chymdeithasol a llafar plant yn llwyddiannus, yn ogystal â meithrin empathi a pharch tuag at aelodau hŷn o’r gymuned. Mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau trosglwyddo cadarn sy’n sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn trosglwyddo'n ddiffwdan i addysg gynradd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/11/2025